# Tarfu ar Asesu Myfyrwyr

Canllaw: 2023 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 23 Mawrth 2023

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Perchennog y Ddogfen | Dyddiad Terfynol | Amlder Adolygu |
|---|---|---|
| Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes | 23 Mawrth 2023 | Adolygwyd y ddogfen ym mis Rhagfyr 2025 ac ni wnaed unrhyw ddiweddariadau.<br><br>Caiff adolygiadau a diweddariadau pellach eu gwneud yn ôl yr angen. |

# Tarfu ar Asesu Myfyrwyr

Cyfarwyddiadau i Fyrddau Arholi ar gyfer Rhaglenni Israddedig

Fersiwn 1.0

## Rhagarweiniad

Yng nghyd-destun y tarfu posibl ar asesu myfyrwyr oherwydd gweithredu diwydiannol, mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad ar ddyfarnu graddau a symud ymlaen. Mae iddi ddau nod cyfartal. Sicrhau na chaiff safonau academaidd a sicrhau ansawdd y Brifysgol eu peryglu, a gwarchod rhag unrhyw effeithiau andwyol ar gwblhau graddau'r myfyrwyr a symud ymlaen.

Mae disgwyl y bydd yr Ysgolion yn asesu'r myfyrwyr yn unol â diffiniad y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig (Rheoliad 01). Diben y ddogfen yw egluro'r gweithdrefnau i Fyrddau Arholi eu dilyn os bydd gan y Byrddau Arholi, oherwydd amgylchiadau eithriadol, set anghyflawn o farciau ar gyfer rhaglenni israddedig.

## Asesiad heb ei gyflwyno

Caiff unrhyw farciau sydd yn eisiau oherwydd na wnaeth myfyriwr gwblhau/gyflwyno asesiad fel rhan o waith cwrs neu sefyll arholiad a gynhaliwyd, eu trin yn y modd arferol. Bydd hynny'n cynnwys ystyried unrhyw Amgylchiadau Arbennig sy'n hysbys.

## Gweithdrefn ar gyfer Myfyrwyr y Flwyddyn Olaf

Rhaid i Fyrddau Arholi ddosbarthu graddau os oes marciau ar gyfer ⅔ neu fwy o'r credydau a fyddai'n cael eu defnyddio fel arfer i bennu dosbarth gradd. Rhaid i'r Bwrdd Arholi ddefnyddio'r weithdrefn isod oni bai bod rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros beidio â dosbarthu gradd oherwydd marciau anghyflawn; er enghraifft, gofynion y Cyrff Proffesiynol, deilliannau dysgu'r modiwl a'r rhaglen neu nifer y modiwlau craidd.

Os, oherwydd gweithredu diwydiannol, nad oes marciau am o leiaf 2/3 o'r credydau a fyddai'n cael eu defnyddio fel arfer i bennu dosbarth gradd, dylai'r Bwrdd Arholi, ar sail yr holl farciau sydd ar gael, benderfynu a wnaeth y myfyrwyr dan sylw fodloni meini prawf Gradd Llwyddo. Rhaid peidio â cheisio pennu dosbarthiad graddau nes bydd set gyflawn o farciau (neu o leiaf bod y trothwy credyd o 2/3 wedi'i gyrraedd). Dylid egluro hynny wrth ddatgelu penderfyniad y Bwrdd i'r myfyrwyr, a gall y myfyrwyr dan sylw raddio ym mis Gorffennaf. Pan fydd y marciau ar gael yn nhreigl amser; dylai'r Bwrdd Arholi ailymgynnull a phennu dosbarthiad y graddau.

1. Cyfrifo marciau modiwl
   Pan fo modd, dylai'r Bwrdd Arholi seilio penderfyniadau ar broffiliau marciau cyflawn ar lefel modiwlau. Os na chaiff modiwl ei gwblhau oherwydd

gweithredu diwydiannol, gall y Bwrdd Arholi ystyried bod y modiwl wedi'i gwblhau, cyn belled â bod:

I. Digon o dystiolaeth o fodloni deilliannau dysgu'r modiwl,
II. Ystyrir bod gofynion y Cyrff Proffesiynol Statudol a Rheolaethol cysylltiedig wedi'u bodloni, ac
III. Mae o leiaf 50% o'r asesiad modiwl pwysol wedi'i gwblhau.
    a. Os cafodd ≥50% o asesiad y modiwl ei gwblhau, caiff yr elfennau sydd yn eisiau eu heithrio a chaiff marc y modiwl ei gyfrifo.
    b. Os cafodd <50% o asesiad y modiwl ei gwblhau, rhaid eithrio'r modiwl o gyfrifiad y radd.
        i. Gall y Byrddau Arholi gymhwyso hynny i fodiwlau sy'n gwneud cyfanswm uwch na'r terfyn o 40 credyd ar gyfer eithriadau asesu a nodir yn Rheoliadau'r Rhaglenni Hyfforddedig, a hyd at y terfyn uchaf lle mae gan y myfyriwr o leiaf 2/3 o'r credyd a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel arfer i bennu dosbarthiad gradd.
        ii. Dim ond **os nad oes** gwrthdaro â gofynion unrhyw gyrff proffesiynol neu reoleiddiol perthnasol y gellir dewis yr opsiwn hwn.

Rhaid i'r Ysgolion sicrhau y caiff y marc a gytunir ar gyfer modiwl ei gofnodi yn Banner.

2. Cyfrifo'r marc canran cyffredinol

Ar gyfer gradd Baglor

% Gyffredinol = $[L^5 + (L^6 \times 2)] / 3$

Ar gyfer Gradd Israddedig Estynedig

% Gyffredinol= (0.4 x L6) + (0.6 x L7)

Os cânt eu cymeradwyo ar adeg y dilysu, gellir cynnwys canlyniadau modiwlau Lefel 5 wrth gyfrifo marc cyffredinol graddau israddedig estynedig fel isod:

% Gyffredinol = [L5 + (2 x L6) + (3 x L7)]/6.

Os mai:
$L^5$ yw marc cymedrig y modiwlau Lefel 5
$L^6$ yw marc cymedrig y modiwlau Lefel 6
$L^7$ yw marc cymedrig y modiwlau Lefel 7

Rhaid talgrynnu'r marc canran cyffredinol fel y nodir yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig (Rheoliad 01).

3. Penderfynu cymhwystra cyffredinol

I fod yn gymwys ar gyfer Gradd Anrhydedd rhaid i fyfyriwr:

- Lwyddo ymhob modiwl Craidd a gwblhawyd
- Cyflawni cyfartaledd cyffredinol o 40% yn y modiwlau a gwblhawyd
- Llwyddo yn o leiaf y nifer canlynol o gredydau Blwyddyn Olaf:

| Credyd Blwyddyn Olaf a gwblhawyd | Credyd Blwyddyn Olaf y mae'n rhaid ei basio |
|---|---|
| 40 | 30 |
| 50 | 40 |
| 60 | 50 |
| 70 | 60 |
| 80 | 60 |
| 90 | 70 |
| 100 | 80 |
| 110 | 90 |
| 120 | 100 |

Mae hynny'n cydnabod y gall cyfartaledd blwyddyn olaf fod yn seiliedig ar <120 o gredydau a gwblhawyd ac efallai na fodlonodd myfyriwr y rheolau dyfarnu am na chwblhaodd ddigon o gredydau a hynny oherwydd y gweithredu diwydiannol.

Os na chaiff y rheolau sy'n ymwneud â dyfarnu eu bodloni oherwydd methiant academaidd (nad yw'n gysylltiedig â gweithredu diwydiannol), bydd angen i fyfyrwyr wneud iawn am y methiant fel bo'n briodol.

Os yw proffil marciau myfyriwr yn cynnwys marciau sydd yn eisiau oherwydd Amgylchiadau Arbennig (y tu hwnt i'r Gweithredu Diwydiannol) sy'n dderbyniol gan y Bwrdd Arholi, rhaid cynnig cyfle i gwblhau asesiad Sefyll am y Tro Cyntaf (neu gamau gweithredu eraill a nodir yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig) gan ddilyn gweithdrefnau safonol.

4. Pennu Dosbarthiad

Rhaid pennu dosbarthiad gradd gyda'r cyfartaledd cyffredinol:

| Marc % Cyffredinol | Dosbarthiad Gradd |
|---|---|
| 70% ac uwch | Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf - I |
| 60% – 69% | Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch - II(i) |
| 50% – 59% | Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is - II(ii) |
| 40% – 49% | Gradd Anrhydedd Trydydd Dosbarth - III |
| 35% – 39% | Gradd Llwyddo |
| 0% – 34% | Methu |

***Rhaid i'r Bwrdd Arholi ystyried yr holl amgylchiadau arbennig cyn dosbarthu gradd pa un a yw'r ymgeisydd ar y ffin neu beidio.***

5. Adolygu Dosbarthiadau Gradd Myfyrwyr Ffiniol

Rhaid i Fyrddau Arholi ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd i adolygu dosbarthiadau graddau myfyrwyr ffiniol, gan gynnwys amgylchiadau arbennig. Yn unol â Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig (Rheoliad 01), ni ddylai Byrddau Arholi godi dosbarth gradd myfyriwr os yw marc cyfartalog y myfyriwr ar ôl ei dalgrynnu'n fwy na 2% o dan ffin isaf dosbarthiad. Er enghraifft, ar gyfer gradd Baglor, gellid ystyried rhoi 2i am farc o 58% yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried rhoi 2i am farc o 57%.

Rhaid dyfarnu dosbarthiad uwch os bydd myfyriwr yn cyflawni un o'r meini prawf canlynol (lle mae'r marciau'n cyfeirio at farciau a gafodd eu talgrynnu):

i. Mae perfformiad y myfyriwr ym mlwyddyn olaf y cwrs yn gyson â'r dosbarthiad uwch. Rhaid dyfarnu'r dosbarthiad uwch i fyfyriwr os yw eu marc cyfartalog yn y modiwlau Lefel 6 yn y dosbarth uwch a bod marciau'r myfyriwr o leiaf hanner y credydau ar Lefel 6 yn y dosbarthiad uwch.
ii. Mae marciau'r myfyriwr mewn ⅔ o leiaf o'r credydau a gwblhawyd ledled Lefelau 5 a 6 yn y dosbarthiad uwch.

**Adolygu Dosbarthiad Graddau**

Os bydd set lawn o farciau o fewn 6 mis ar ôl cyfarfod gwreiddiol y Bwrdd Arholi, rhaid i'r Bwrdd adolygu marciau'r modiwl a dosbarthiad y radd. Os yw'r dosbarthiad gradd diwygiedig yn *is* na'r dosbarthiad a ddyrannwyd yn flaenorol, rhaid cadarnhau'r dosbarthiad blaenorol (h.y. ni chaiff dosbarthiad gradd myfyriwr ei ostwng - mae hynny er mwyn sicrhau na fydd myfyrwyr dan anfantais pan fyddant yn gwneud cais am astudiaeth bellach neu gyflogaeth). Os bydd y dosbarthiad diwygiedig yn *uwch* na'r dosbarthiad a ddyrannwyd yn flaenorol, rhaid cadarnhau'r dosbarthiad diwygiedig (h.y. codi dosbarthiad gradd y myfyriwr).

**Apelio**

Bydd y gweithdrefnau apelio arferol ar gael i'r myfyrwyr. Gall myfyrwyr sy'n credu eu bod o dan anfantais oherwydd y prosesau a ddisgrifir yn y ddogfen gyflwyno apêl, ond rhaid seilio'r apeliadau ar un o'r rhesymau a ddiffinnir yn y gweithdrefnau apelio.

**Gweithdrefn i'r rhai nad ydynt yn eu blwyddyn olaf a symud ymlaen**

Y rhagdybiaeth yw y bydd symud ymlaen fel arfer yn seiliedig ar y rheolau cyfredol sy'n ymwneud â symud ymlaen a nodir yn Rheoliadau'r Rhaglenni Hyfforddedig.

Pan fo modd, dylai'r Bwrdd Arholi seilio penderfyniadau ar broffiliau marciau cyflawn ar lefel modiwlau. Dylid dilyn y weithdrefn sy'n ymwneud ag ymdrin â marciau modiwlau a ddisgrifir ar gyfer Myfyrwyr yn eu Blwyddyn Olaf.

Os yw'r canlyniadau sydd yn eisiau'n ymwneud â gofynion craidd, rhagofynion neu ofynion y cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol, gellir oedi ar symud ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol. Bydd angen gweithredu cyn gynted ag y bydd y canlyniadau ar gael (fel rheol trwy weithredu gan y Cadeirydd). Bydd y Brifysgol yn darparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl pan fo angen i fyfyrwyr gwblhau'r elfennau hynny.

- Pan fo'r marciau sydd yn eisiau'n ymwneud ag asesiadau sy'n ofynnol gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol, nodir bod cynnydd 'yn yr arfaeth'. Caiff y myfyriwr ddechrau'r flwyddyn ddilynol, ond ni fydd symud ymlaen swyddogol nes bydd yr holl waith sy'n weddill wedi ei gwblhau. Hefyd, gellir gohirio unrhyw weithgareddau dysgu yn y flwyddyn ddilynol sy'n ddibynnol ar lwyddo mewn cynnwys blaenorol nes bydd y gwaith blaenorol wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.

Os yw proffil marciau myfyriwr yn cynnwys marciau sydd yn eisiau oherwydd Amgylchiadau Arbennig (y tu hwnt i'r Gweithredu Diwydiannol) sy'n dderbyniol gan y Bwrdd Arholi, dylid cynnig cyfle i gwblhau asesiad Sefyll am y Tro Cyntaf gan ddilyn gweithdrefnau safonol.

Bydd symud ymlaen yn seiliedig ar y credydau a gwblhawyd (gan gynnwys y rhai y bernir eu bod wedi'u cwblhau).

1. Bydd angen 80 credyd o fodiwlau ar y marc llwyddo ar y myfyriwr.
    i. Caiff myfyrwyr a gwblhaodd <80 credyd o fodiwlau oherwydd eithriadau modiwlau symud ymlaen os llwyddasant yn yr holl fodiwlau a gwblhawyd ar y marc llwyddo. Ar gyfer unrhyw fodiwlau gorffenedig a fethwyd, bydd angen i fyfyrwyr wneud iawn am fethu yn y modiwlau hynny fel bo'n briodol.
    ii. Rhaid i fyfyrwyr a gwblhaodd 80 credyd lwyddo ymhob modiwl a gwblhawyd ar y marc llwyddo. Ar gyfer unrhyw fodiwlau gorffenedig a fethwyd, bydd angen i fyfyrwyr wneud iawn am fethu yn y modiwlau hynny fel bo'n briodol.
    iii. Rhaid i fyfyrwyr a gwblhaodd 90 neu fwy o gredydau lwyddo ymhob modiwl a gwblhawyd ar y marc llwyddo.
2. Ymhob senario uchod, rhaid llwyddo mewn unrhyw fodiwlau craidd a gwblhawyd.
3. Ymhob senario uchod, rhaid i fyfyrwyr fod â chyfartaledd cyffredinol am y flwyddyn uwchlaw'r marc llwyddo, yn seiliedig ar y credydau a gwblhawyd.
4. Ymhob senario uchod, ni chaiff myfyrwyr symud ymlaen â marc modiwl gorffenedig o <30%. Bydd angen i fyfyrwyr wneud iawn am fethu yn y modiwlau hynny fel bo'n briodol.